Munud i Feddwl

Tywyll yw ...

Cyfnod tywyll ydyw! Bu'n dywyll, oer a glawiog trwy'r dydd ddoe. Cyfnod tywyll o'r flwyddyn ydyw! Mae newyddion y dydd, bob dydd, yn dywyll! Mae'n dywyll ar yr economi, mae'n dywyll ar deulu Gary Speed. Tymor tywyll yw Tymor yr Adfent. A yw Duw yn y tywyllwch hwn? A oes yn rhaid wrth oleuni i'w weld a phrofi o'i fendith?

Ar adegau, credaf ein bod yn chwilio gormod am oleuni disglair, treiddiol; goleuni yn amlygu pob peth sydd ynghudd. Onid yw ymchwiliad Leveson yn dangos beth ddaw pan bydd newyddiaduraeth yn ceisio diwallu dyhead dwfn y cyhoedd am cael gwybod y cyfan oll am bobl? Nid oedd tywyllwch y cysgodion i fod, rhaid oedd cael gweld y cyfan. Os oedd rywrai'n dewis byw yn llygad y cyhoedd, 'roedd hawl gan y cyhoedd i lygadu eu bywyd yn gyfan! Nid oes tywyllwch yn *reality TV*, mae popeth yn y golau, y cyfan oll yn amlwg, goleuir bob twll a chornel. Onid ydym am wybod rhagor o hyd, croesi'r ffiniau, torri plisgyn rhyfeddod, datrys y dirgelion? Nid drwg hyn oll gan mai dyma sbardun cynnydd a datblygiad. Tybed, er hynny, a ddaethom i ddisgwyl cael gwybod y cyfan, cael croesi bob ffin, a thorri plisgyn bob un rhyfeddod a datrys pob dirgelwch? Onid math o wybod yw gwybod nad oes yn rhaid gwybod y cyfan? Onid oes yn rhaid i rhai pethau aros yn y tywyllwch? Gellir difetha rhywbeth o'i dynnu o'r tywyllwch i'r goleuni, gall y peth hwnnw ein difa wrth i ni ei dynnu o'i iawn gynefin. Mae pris i bob peth, wedi'r cyfan.

Ond digon o'r diflastod hyn meddech chi! Myn awdur Genesis mae camp Duw oedd creu goleuni, nid cynnal tywyllwch (Genesis 1: 3)! Yn wir, onid ydym, fel Pobl Crist yn Bobl y Goleuni – Goleuni'r Byd yw ein Harglwydd ni! Nid peth swil oedd apêl Iesu: "*Llewyrched eich goleuni ...*" (Mathew 5: 16)! Gwna hyn i ddyn feddwl am oleuadau disglair Piccadilly Circus! Nid dyma'r stori yn ei chrynswth. Tra'n cydnabod bod Duw yn creu a lledaenu goleuni, "*nesaodd Moses at y tywyllwch lle'r oedd Duw*" (Exodus 20: 21). Yn nirgelion y Deml, yn nhywyllwch y cysgodion mae'r Cysegr Sancteiddiolaf. Pan ddaw Moses i lawr o'r mynydd (Exodus 34: 29-35) mae croen ei wyneb yn disgleirio o Dduw. 'Roedd ofn ar y bobl, a rhoddodd Moses orchudd ar ei wyneb rhag dychryn y bobl. Er na allaf yn iawn a chywir fynegi'r peth gwn bod Duw llawn gymaint ar waith yn y tywyllwch - yn y cysgodion - ag ydyw yn nisgleirdeb y goleuni mawr. Mae ambell brofiad o Dduw ar waith yn a thrwy tywyllwch ein byw, na all byth weld golau dydd, gan fydd y goleuni yn ei ddifa.

Ym mhennod agoriadol Efengyl Ioan, mae'r goleuni yn "*llewyrchu yn y tywyllwch*" (Ioan 1: 5). Nid yw'r goleuni yn cael ei drechu gan y tywyllwch, ond nid ydyw ychwaith yn 'diffodd' y tywyllwch. Amgylchynir y Gair gan gysgodion a thywyllwch. Felly mae o hyd. Eiddo Duw y goleuni disglair a'r tywyllwch trwm, ac am hynny, nid yw'r un sefyllfa ddynol yn anobeithiol rhagor. *OLlE*

30 Tachwedd 2011